Dal yr Haul

Parchu natur / Diolchgarwch

Pan ddeffrôdd Petros roedd yr haul wedi llosgi'i groen. "Yr haul digywilydd" meddai, "rwyt ti wedi llosgi fy nghroen. Mi ydw i am dy gosbi di am wneud hyn." Rhedodd adref. Roedd ei chwaer yn yr ardd. Dychrynodd pan welodd Petros wedi cyrraedd mor gynnar. Holodd Petros beth oedd wedi digwydd. "Mi es i gysgu a phan wnes i ddeffro roedd yr haul digywilydd wedi llosgi fy nghroen. Mi rydw i am gosbi'r haul am wneud y fath beth!" meddai.

"Sut wyt ti'n mynd i gosbi'r haul" gofynnodd ei chwaer iddo.

"Mi rydw i am ddal yr haul efo rhwyd. Wnaiff yr haul byth godi eto."

"Os wyt ti'n mynd i rwystro'r haul rhag codi i roi goleuni i'r byd, rwy'n siŵr y byddi'n difaru am hynny."

"Na fyddaf" meddai Petros yn syth.

Bore drannoeth bu ei chwaer yn gwneud rhwyd fawr o wallt ei phen i ddal yr haul. Aeth i fyny at y llyn. Yno, gwyddai fod yr haul yn codi. Yn araf, araf, cododd yr haul. Chwifiodd Petros ei rwyd a daliodd yr haul.

"Yr hen haul gwirion. Wnei di byth godi eto!" meddai Petros. Rhedodd adref i ddweud wrth ei chwaer. Roedd mor hapus ei fod wedi dal yr haul. Ond yn ystod y dydd teimlai'n ddigalon. Gan na wnaeth yr haul godi'r diwrnod hwnnw roedd pobman yn llwydaidd ac yn oer. Arhosodd Petros a'i chwaer yn y tŷ. Doedd yr adar ddim yn canu yn y goedwig. Doedd y cwningod ddim yn dod allan o'u tyllau. Doedd y blodau ddim yn agor na'r coed yn deilio. Arhosodd y pysgod yng nghysgod y planhigion yn y dŵr. Doedd dim byd yn tyfu, yn nofio, yn rhedeg, yn hedfan. Dim byd o gwbl.

"Petros, beth wyt ti wedi wneud?" gofynnodd ei chwaer iddo. "Doeddwn i ddim yn gwybod y buasai'r ddaear yn oeri heb haul."

"Mae'n rhaid i ti fynd i agor y rhwyd a gollwng yr haul y

munud yma" meddai'i chwaer wrtho'n bendant.
"Ond fedra i ddim mynd yn agos ato. Mae'r haul yn llosgi mor danbaid," meddai Petros.
"Pwy sy'n mynd i dorri'r rhwyd, felly?" gofynnodd ei chwaer.
Wrth ymyl y llyn roedd cnocell fraith yn byw. Dechreuodd bigo'r rhwyd gyda'i big mawr. Bu'n pigo a phigo am amser maith. Llosgodd yr haul y plu ar ei phen yn goch llachar. Ond daliodd ati ac yn y diwedd llwyddodd i dorri'r rhwyd. "Rydw i wedi llwyddo" meddai'r gnocell fraith.
Yn araf, cododd yr haul. Dechreuodd yr adar ganu. Agorodd yn blodau eu petalau lliwgar. Daeth y cwningod allan o'i tyllau. Daeth y pysgod o'u cuddfan a dechrau nofio yn y dŵr. Dechreuodd popeth dyfu, nofio, rhedeg a hedfan. Daeth Petros a'i chwaer allan o'r tŷ. "Mae popeth fel yr oedd hi o'r blaen" meddai'i chwaer.
"Haul!" meddai Petros, "mae'n ddrwg gen i. Ond doeddwn i ddim yn deall dy fod ti yn gyfrifol am roi gwres a goleuni i ni. Doeddwn i ddim yn deall na fedrai'r byd fyw hebddo ti. Diolch Haul."
Rhedodd a dawnsiodd Petros a'i chwaer o gwmpas y caeau i ddiolch i'r haul.

Diolch i Ti O Dduw am wres a goleuni'r haul. Amen.

- Trafodwch pa mor bwysig ydi'r haul.
- Ydi cynhesrwydd a goleuni'r haul yn bwysig i bobl ac anifeiliaid?